



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



ARWEINIAD I GYLLID MYFYRWYR

Mynediad yn 2021



ARIANNU EICH ASTUDIAETHAU

- Fel myfyriwr israddedig llawn-amser bydd gennych ddwy brif gost: eich ffioedd dysgu a'ch costau byw (tudalen 4-9).
- Mae ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i roi cymorth ariannol ychwanegol (tudalen 10-15).
- Rydym yn awyddus i'ch helpu cyn gymaint â phosib ar faterion cyllid – mae cyngor ar gael cyn i chi wneud cais a thra rydych yn astudio, trwy'r Uned Cymorth Ariannol yn Gwasanaethau Myfyrrwyr.
- Am y wybodaeth ddiweddaraf ewch i: www.bangor.ac.uk/cyllidmyfyrwyr
- Does dim angen talu'r ffi ddysgu yn syth – ceir y ffi eu thalu gyda Benthyciad Ffi Ddysgu a gohirir ei dalu yn ôl tan ar ôl i chi raddio (tudalen 5).
- Yn achos myfyrwyr cymwys o Gymru, bydd Grant Dysgu Llywodraeth Cymru nad oes rhaid ei dalu'n ôl ar gael (tudalen 6).
- Gallwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliath i helpu gyda'ch costau byw tra rydych yn fyfyrwr (tudalen 7).

CYLLID MYFYRWYR

Fel myfyriwr israddedig llawn-amser bydd gennych ddwy brif gost: eich ffioedd dysgu ac eich costau byw.

Mae'r gost am eich cwrs, y ffi ddysgu, yn daliad wedi'i ohirio – rydych yn talu'r ffi ddysgu gyda Benthyciad Ffi Ddysgu a nid oes raid i chi ei dalu yn ôl nes i chi raddio a dechrau ennill dros £26,575 y flwyddyn (gweler tudalen 5).

Bydd eich costau byw tra byddwch yn fyfyrwr yn cynnwys eitemau fel llety, bwyd, llyfrau, dillad a theithio. Gallwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth i'ch helpu gyda'ch costau byw (gweler tudalen 7).

Bydd myfyriwr cymwys o Gymru yn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £1,000 y flwyddyn a gall myfyriwr hefyd fod yn gymwys am grant ychwanegol ar sail prawf modd.

Gallwch hefyd wneud cais am ysgoloriaethau a bwrsariaethau Prifysgol Bangor i'ch helpu gyda'ch costau byw gweler tudalen 10-15).

Mae gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr swyddi rhan-amser yn ystod y gwyliau ac/neu yn ystod y tymor i'w helpu gyda'u costau. Tra byddwch yma, gall TARGETConnect, y biwro cyflogaeth myfyriwr, eich helpu i gael hyd i waith rhan-amser, tra bydd y cyfleoedd profiad gwaith sydd ar gael drwy'r Ganolfan Sgiliau a Chyflogadwyedd yn cyfoethogi eich CV.

Ffioedd Dysgu - talu am eich cwrs

- Bydd ffi ddysgu o £9,000 y flwyddyn yn 2021/22. Am y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i: www.bangor.ac.uk/cyllidmyfyrwyr
- Nid oes raid i chi dalu unrhyw ffioedd dysgu tra ydych yn astudio (er y gallwch wneud hynny os dymunwch).
- Caiff y taliad ei ohirio nes ar ôl i chi raddio trwy Fenthyciad Ffi Ddysgu sy'n cael eu dalu yn yn uniongyrchol i'r Brifysgol gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar eich rhan.
- Byddwch yn dechrau ad-dalu eich benthyciad cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ennill dros £26,575 y flwyddyn.
- Bydd angen gwneud cais am Fenthyciad Ffi Ddysgu. Gallwch wneud cais am eich Benthyciad Ffi Ddysgu, Benthyciad Cynhaliaeth a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar y ffurflen *PN1 Cais am Gyllid i Fyfyrwyr*. Mae'r ffurflen ar gael i'w llenwi ar-lein ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk
- Mae'n debyg bydd ffurflenni cais Cyllid Myfyrwyr ar gael yn fuan yn 2021. Rydym yn eich cyngori i gwblhau'r ffurflen mor fuan â phosib i sicrhau bod eich asesiad ariannol yn cael ei gwblhau cyn i'ch cwrs ddechrau ym Medi 2021.
- Gall myfyrwyr llawn-amser cymwys wneud cais am fenthyciad ar gyfer swm lawn eu ffioedd dysgu. Caiff y Benthyciad Ffi Ddysgu ei dalu'n uniongyrchol i'r brifysgol i dalu'r ffioedd dysgu ar eich rhan.

Costau Cwrs Ychwanegol

- Yn dibynnu ar y cwrs rydych yn ei astudio, efallai bydd yna gostau ychwanegol penodol y bydd angen i chi eu talu.
- Mae rhain yn amrywio o gostau sy'n berthnasol i fodiwl gorfodol neu graidd y bydd rhaid i chi ei gwblhau i gyflawni eich cymhwyster e.e. teithiau maes gorfodol, gwisg i fyfyrwyr ar leoliad, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; costau sy'n berthnasol i aelodaeth corff proffesiynol, costau teithio i leoliad gwaith, meddalwedd arbenigol, cyfarpar diogelwch personol, neu gostau dewisol fel digwyddiadau graddio ar gyfer eich cwrs, teithiau maes dewisol neu deithiau yn ystod yr Wythnos Groeso.
- Am fanylion costau ar gyfer cyrsiau penodol, gweler y disgrifiadau cwrs ar y wefan.



Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru

- Bydd gwerth lleiafswm o £1,000 ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n byw yng Nghymru.
- Gall myfyrwyr hefyd fod yn gymwys am grant ychwanegol wedi asesiad eich incwm trethadwy cartref.
- Yn 2020/21, derbyniodd myfyrwyr o gartrefi gyda'r incwm cartref isaf y swm uchaf – hyd at £8,100 y flwyddyn. Mae'r ffigyrau ar gyfer 2021 i'w cadarnhau.
- Gallwch wneud cais am y grant hon yn ychwanegol at y Benthyciad Cynhaliath a mathau eraill o gefnogaeth – ac nid oes raid i chi dalu'r arian yn ôl.
- Am y wybodaeth mwyaf diweddar, ewch i: www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk
- Gallwch wneud cais am eich Benthyciad Ffi Ddysgu, Benthyciad Cynhaliath a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru nad oes angen ei ad-dalu ar y ffurflen *PN1 Cais am Gyllid i Fyfyrwyr*. Gallwch lenwi'r ffurflen ar-lein ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- Disgwylir i'r ffurflen *PN1 Cais am Gyllid i Fyfyrwyr* fod ar gael yn gynnar yn 2021. Cynghorir chi i gwblhau'r ffurflen cyn gyntad â phosib.
- Caiff grantiau eu talu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu mewn tri rhandaliad – un ar ddechrau pob tymor.



Benthyciad Cynhaliaeth

- Mae Benthyciad Cynhaliaeth ar gael i'ch helpu gyda chostau byw fel llety, bwyd, llyfrau, dillad a theithio. Daw'r arian hwn gan y llywodraeth drwy'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.
- Mae cyfraddau'r benthyciad wedi ei seilio ar lle rydych yn byw ac astudio, incwm eich cartref a'r grant y mae gennych hawl i'w chael.
- Nid yw manylion llawn y Benthyciad Cynhaliaeth ar gyfer 2021 wedi cael eu cyhoeddi eto. Cewch y diweddaraf yma: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk
- Gallwch wneud cais am eich Benthyciad Ffi Ddysgu, Benthyciad Cynhaliaeth a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru nad oes angen ei ad-dalu ar y ffurflen *PN1 Cais am Gyllid i Fyfirwyr*. Rhaid llenwi'r ffurflen ar-lein ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- Caiff y Benthyciad Cynhaliaeth ei dalu'n syth i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu mewn tri rhandaliad – un ar ddechrau pob tymor.
- Mae'n rhaid i Benthyciad Cynhaliaeth gael ei dalu'n ôl unwaith y byddwch wedi gorffen eich cwrs ac yn ennill mwy na £26,575 y flwyddyn. Fel rheol bydd eich cyflogwr yn tynnu'r arian o'ch cyflog yn yr un ffordd a threth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Cyfradd llog isel iawn a godir ar fenthyciadau myfyrwyr – sef lefelau chwyddiant + 3% tra'n astudio. Mae hyn yn sicrhau bod gwerth y benthyciad fydd yn cael ei ad-dalu yr un fath mewn gwirionedd â'r swm y gwnaeth ei fenthyg.

Cymorth Ychwanegol

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol, efallai y gallwch gael cefnogaeth ariannol ychwanegol at yr hyn a ddisgrifir mewn rhannau eraill o'r daflen hon.

Yn achos myfyrwyr anabl mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn helpu gyda chostau a gewch ar eich cwrs, o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd, anhawster dysgu penodol neu gyflwr iechyd hir-dymor. Yn dibynnu ar eich anghenion, gall y lwfans eich helpu, er engraifft, i gael offer arbenigol, i dalu i gynorthwyywyr anfeddygol, neu i dalu i gostau teithio ychwanegol i'r brifysgol.

Gall myfyrwyr gyda phlant neu ddibynyddion eraill fod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol megis y Grant Gofal Plant, Grant Dibynyddion sy'n Oedolion neu'r Lwfans i Rieni sy'n Dysgu. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Cymorth tra byddwch yma

Ym Mhrifysgol Bangor, rydym yn awyddus i'ch helpu cymaint ag y gallwn gyda materion ariannol. Mae llawer o fyfyrwyr yn wynebu problemau ariannol rhywbryd yn ystod eu cwrs. Y peth pwysig yw gofyn am gymorth a chynghor cyn gynted â phosibl trwy gysylltu â'r Uned Cymorth Ariannol, yr Uned Cynrychiolaeth Academaidd yn Undeb y Myfyrwyr, neu eich Banc.

Efallai y gallwch gael cymorth ychwanegol gan y Brifysgol hefyd ar ôl i chi ddechrau eich cwrs. Mae Cronfa Caledi Bangor yn bodoli i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n wynebu anhawster ariannol annisgwyl gyda'u costau byw am wahanol resymau.

Efallai na fydd rhaid talu'n ôl unrhyw arian a gewch o'r gronfa hon. Mae manylion ar bwy sy'n gymwys, a sut i wneud cais, ar gael o'r Uned Cymorth Ariannol o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr unwaith y byddwch yma.

I gysylltu â'r Uned Cymorth Ariannol:
Ffôn: 01248 383566 / 383637
E-bost: cymorthariannol@bangor.ac.uk

Crynodeb

- Does dim angen talu'r ffioedd dysgu'n syth – gohirir talu tan ar ôl i chi raddio.
- Gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffi Ddysgu fydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Brifysgol i dalu'r ffioedd dysgu ar eich rhan.
- Byddwch yn dechrau ad-dalu eich Benthyciad Ffi Ddysgu cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ennill dros £26,575 y flwyddyn.
- Gellwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliath i helpu gyda'ch costau byw.
- Bydd pob myfyriwr cymwys o Gymru yn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £1,000 y flwyddyn. Gall myfyrwyr hefyd fod yn gymwys am grant ychwanegol ar sail prawf modd.
- Mae cymorth ariannol ychwanegol ar gael i rai mathau o fyfyrwyr, er enghraifft, rhai gyda dibynyddion, myfyrwyr anabl.
- Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.bangor.ac.uk/cyllidmyfyrwyr



BWRSARIAETHAU AC YSGOLORIAETHAU

Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl mewn prifysgol sy'n rhoi cryn bwyslais ar gynorthwyo myfyrwyr, rydyn ni'n awyddus i gynnig help ychwanegol i fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaethau ac ysgoloriaethau gwerth dros £3.4M ar gyfer myfyrwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd.

Dyfernir bwrsariaethau yn ôl meini prawf penodol – er enghraifft, rhoddir Bwrsariaeth Bangor i'r rhai sy'n gymwys oherwydd incwm eu cartref. Ar yr amod eich bod yn ateb y meini prawf ac wedi llenwi'r ffurflen briodol ar gyfer cyllid i fyfyrwyr, dylech dderbyn y fwrsariaeth berthnasol yn awtomataidd.

Teilyngdod yw maen prawf y rhan fwyaf o'r Ysgoloriaethau a gynigir gan y Brifysgol. Er enghraifft, gall y rhai sy'n rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Brifysgol ennill Ysgoloriaethau Teilyngdod gwerth hyd at £3,000.

Bwrsariaethau 2021

Bwrsariaethau Astudio trwy'r Gymraeg

Fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg, mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaethau i gynorthwyo'r rheini sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bwrsariaethau o £250 y flwyddyn ar gael i'r rhai sy'n dewis astudio mwy na 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bwrsariaethau Cychwyn

Mae bwrsariaethau cychwyn o £1,000 yr un ar gael i'r rheini sy'n dod i'r Brifysgol o ofal, cyn breswylwyr Foyer a myfyrwyr wedi eu dieithrio. Bwriad y bwrsariaethau hyn yw talu am y llyfrau, y cyfarpar, y teithio a'r cymhorthion astudio sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Unwaith yn unig yn ystod y flwyddyn gyntaf y bydd y bwrsariaethau hyn yn cael eu talu. Nid oes rhaid eu talu'n ôl.

Bwrsariaethau Gofalwyr

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol y gallai gofalu fod â goblygiadau ariannol, gyda myfyrwyr yn cael costau teithio uwch, neu'n canfod na allent weithio'n rhan-amser mor rhwydd i ategu eu cyllid myfyrwyr. I helpu i ysgafnhau ychydig o'r pryderon ariannol hyn, mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaeth flynyddol i fyfyrwyr sy'n ofalwyr di-dâl, o hyd at £1,000.

Cofiwch:

- I fod yn gymwys i gael unrhyw un o fwrsariaethau Bangor, rhaid i chi lenwi ffurflen gais am gyllid myfyriwr – dyma'r ffordd o asesu hawl myfyrwyr i gael benthyciadau, grantiau cynhaliath ac ati. Bydd yr un drefn (a'r un ffurflen) yn cynnwys asesu eich hawl i gael bwrsariaeth.
- Caiff taliadau bwrsariaethau eu gweinyddu a'u dosbarthu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar ran y Brifysgol – felly rhaid i chi lenwi ffurflen gais am gyllid myfyriwr cyn gallu derbyn taliad bwrsariaeth gan Fangor.

Ysgoloriaethau Bangor

Mae Bangor yn cynnig cynllun ysgoloriaeth hael, gyda myfyrwyr israddedig yn derbyn rhyw £100,000 bob blwyddyn. Rhaid ichi wneud cais am yr Ysgoloriaethau sydd i'w gweld isod ac ar y dudalen nesaf.

Ysgoloriaethau Mynediad ac Ysgoloriaethau Teilyngdod

Fel rhan o gynllun Ysgoloriaethau Mynediad Bangor, mae oddeutu 40 Ysgoloriaeth Teilyngdod o hyd at £3,000 yr un ar gael i'r rheini sy'n rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad blynyddol y Brifysgol.

I gael eich ystyried ar gyfer yr Ysgoloriaethau Teilyngdod ac Ysgoloriaethau Mynediad eraill, mae rhaid i chi:

- lenwi ffurflen gais yr Ysgoloriaethau Mynediad (15 Ionawr 2021 yw'r dyddiad cau ar gyfer Ysgoloriaethau Mynediad 2021);
- sefyll arholiad yn eich dewis bwnc (bydd yr arholiadau'n cael eu cynnal yn eich ysgol/ coleg ar ddydd Mercher, Ionawr 27 2021).

Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn cynnig Ysgoloriaethau Mynediad yn y pynciau sy'n dilyn: Almaeneg, Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Crefyddol, Astudiaethau'r Cyfryngau, Astudiaethau Theatr, Athroniaeth, Bioleg, Cerddoriaeth, Cyfrifiadureg, Cymdeithaseg, Cymraeg (fel Iaith Gyntaf neu Ail Iaith), Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg, Economeg, Eidaleg, Electroneg, Ffrangeg, Ffiseg, Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer, Hanes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mathemateg, Seicoleg, Llenyddiaeth Saesneg, Iaith Saesneg, Sbaeneg, Tsieinëeg, Y Gyfraith.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddianus yn derbyn yr Ysgoloriaeth Teilyngdod yn y flwyddyn gyntaf gyda'r wobr yn cael ei chyflwyno mewn seremoni ar ddiwedd tymor yr hydref.

Ysgoloriaethau Eraill

Mae Ysgoloriaethau Mynediad Bangor hefyd yn cynnwys nifer o ysgoloriaethau cronfeydd ymddiriedolaeth, ysgoloriaethau mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru'n eu dyfarnu, ac ysgoloriaethau pwnc fel Ysgoloriaeth Ysgol y Gyfraith, Ysgoloriaethau'r Ysgol Addysg, ac Ysgoloriaethau'r Ysgol Peirianeg Electronig ac Ysgoloriaethau'r Ysgol Cyfrifiadureg.

Am fwy o wybodaeth am yr Ysgoloriaethau Mynediad, gofynnwch am gopi o'r Llawlyfr Ysgoloriaethau Mynediad neu ewch i:
www.bangor.ac.uk/ysgoloriaethau

Ysgoloriaethau Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Prif Ysgoloriaethau'r Coleg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ysgoloriaethau gwerth £1,000 y flwyddyn (£3,000 dros dair blynedd) ar gyfer cyrsiau gradd lle bydd myfyrwyr yn dilyn 240 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

I ymgeisio ar gyfer un o'r Ysgoloriaethau hyn ym Mangor, mae gofyn i chi sefyll ein arholiad Ysgoloriaethau Mynediad (manylion ynghynt).

Ysgoloriaethau Cymhelliant

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ysgoloriaethau gwerth £500 y flwyddyn (£1,500 dros dair blynedd) ar gyfer cyrsiau gradd lle bydd myfyrwyr yn astudio o leiaf 120 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr ysgoloriaethau hyn ar gyfer cyrsiau penodol yn y meysydd academiaidd isod (lle bydd modd astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg):

- Busnes a Rheolaeth
- Cyfraith
- Gwyddorau'r Amgylchedd a Daearyddiaeth
- Gwyddorau ac Astudiaethau Chwaraeon
- Gwyddorau Iechyd
- Ieithoedd Modern
- Seicoleg

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan:
www.colegcymraeg.ac.uk



Ysgoloriaethau Chwaraeon

Mae cynllun Ysgoloriaeth Chwaraeon Bangor yn cydnabod a chefnogi rhagoriaeth a chyrhaeddiad mewn chwaraeon.

Nid yw'r Ysgoloriaethau, sy'n werth £3,000 y flwyddyn, wedi'u cyfyngu i unrhyw gamp neilltuol nac i fyfyrwyr ar unrhyw gyrsiau penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i'r unigolion hynny a fydd yn gallu cynrychioli Prifysgol Bangor yng nghystadlaethau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS).

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer eich ystyried am Ysgoloriaeth Chwaraeon, rhaid i chi fod:

- Yn debygol o gyrraedd safle podiwm, neu safle a fydd yn sgorio pwyntiau, yn y bencampwriaeth BUCS briodol
- Yn gystadleuydd lefel Ewropeaidd, lefel y Gymanwlad neu lefel Byd yn eich camp neilltuol
- Yn cystadlu mewn camp neu ar lefel nad yw'n cynnig gwobrau ariannol.

I ymgeiswyr UCAS, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer yr Ysgoloriaeth Chwaraeon yw 31 Mawrth, 2021. Mae manylion llawn am y meini prawf a'r ffurflen gais ar gael ar y wefan ar: www.bangor.ac.uk/ysgoloriaethchwaraeon

Crynodeb

Mae'r bwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar gyfer Medi 2021, yn cynnwys:

- **Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg** o £250 y flwyddyn i'r rhai sy'n dewis astudio'r cyfan neu ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Ysgoloriaethau Teilyngdod** o hyd at £3,000 ar gyfer y rheiny sy'n rhagori yn yr arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad
- **Ysgoloriaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** – ysgoloriaethau gwerth £1,000 neu £500 y flwyddyn ar gael. Gweler y wefan am fwy o wybodaeth: www.colegcymraeg.ac.uk

Sylwer: Mae Prifysgol Bangor wedi gwneud popeth i sicrhau bod y wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi (Hydref 2020). Fodd bynnag, gall y wybodaeth newid os bydd penderfyniadau a wneir yn y Brifysgol neu'r tu allan iddi yn effeithio ar bolisiau a dulliau gweithredu yn ymwneud â ffioedd, bwrsariaethau, grantiau a benthyciadau.



